Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Comisiwn y Cynulliad

National Assembly for Wales
Assembly Commission

Mike Hedges AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Eich cyf:
Ein cyf: PO184/EJ/RR

14 Mehefin 2017

Annwyl Mike

**Deiseb P-05-762 Symud Cynulliad Cymru o Gaerdydd**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 15 Mai 2017. Mae'r Llywydd wedi gofyn i Gomisiwn y Cynulliad ystyried cynnwys y llythyr a rhoi ein barn ar y mater hwn i'r Pwyllgor Deisebau.

Fel Comisiwn, rydym yn cydnabod pa mor bwysig yw cael sefydliadau cenedlaethol mewn lleoliadau ledled Cymru, er mwyn sicrhau bod ffyniant economaidd a chyfleoedd cyflogaeth yn cael eu gwasgaru ar draws y genedl.

Mae pob un o Gomisiynwr y Cynulliad yn rhannu'r egwyddor hon. Rydym yn derbyn bod yn rhaid i ni bob amser chwilio am ffyrdd newydd o estyn allan i bobl Cymru ac mi fyddwn yn ystyried opsiynau ar gyfer cynnal mwy o fusnes y Cynulliad mewn rhannau eraill o Gymru.

Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru swyddfa ym Mae Colwyn, yn ogystal â Bae Caerdydd. Efallai y bydd y deisebydd yn ymwybodol hefyd fod y sefydliad yn cynnal gwaith helaeth er mwyn ymgysylltu â chymunedau ym mhob rhan o'r genedl, a'n bod yn cyflogi swyddogion yn y gorllewin a'r gogledd i'r perwyl hwnnw. At hynny, rydym wedi datblygu strategaeth newydd ar gyfer ymgysylltu â phobl ifanc i ategu ein darpariaeth bresennol o ran addysg. Mae'r strategaeth newydd wedi ehangu cwmpas y gwaith hwn ac rydym wedi creu rhaglen ar gyfer

ymgysylltu â chymunedau, Senedd@, ac mae Senedd y DU yn y broses o fabwysiadu'r rhaglen honno.

Mae cyfrifoldebau Llywodraeth Cymru yn cynnwys datblygu economaidd, ac mae ganddi swyddfeydd yng Nghaergybi, Caernarfon, Cyffordd Llandudno, Wrecsam, Aberystwyth, Llandrindod, y Drenewydd, Caerfyrddin, Aberdaugleddau, Abertawe, Pen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful, Nantgarw, Casnewydd, Trefforest, Bedwas a Chaerdydd.

Fodd bynnag, mae'n briodol ym marn y Comisiwn mai prif leoliad senedd Cymru yw ein prifddinas, Caerdydd, a bod adeilad y Senedd yn ennill ei blwy fel cartref democratiaeth Cymru – ymhlith pobl Cymru a thu hwnt. Felly, ni fyddem yn dewis symud ein senedd i fan arall.

Gan gyfeirio at rai o'r pryderon a fynegwyd gan Mr Jones, mae'r Cynulliad Cenedlaethol, wrth gwrs, yn gyfrifol am graffu ar benderfyniadau Llywodraeth Cymru ynghylch ei pholisïau a'r broses o'u rhoi ar waith, ei chyfrifoldeb i gynrychioli *holl* ddinasyddion a chymunedau Cymru, ac, yn wir, y ffordd y mae'n gwario ei harian. Mae'r Aelodau yn cael cyfle yn rheolaidd i graffu ar Ysgrifenyddion y Cabinet o ran eu penderfyniadau ynghylch buddsoddi a chreu swyddi, ac o ran eu hymddygiad yn gyffredinol.

Mae'r deisebydd hefyd yn cyfeirio at "dystiolaeth gynyddol o lygredd" ond nid yw testun y ddeiseb yn cynnig unrhyw sail i gefnogi'r haeriad hwn. Mae gan Gomisiwn y Cynulliad weithdrefnau ar waith i ystyried unrhyw honiadau penodol pe bai unrhyw un am wneud cwyn.

Yn gywir

Elin Jones

Elin Jones AC, Llywydd a Chadeirydd y Comisiwn
Suzy Davies AC, Comisiynydd y Cynulliad
Caroline Jones AC, Comisiynydd y Cynulliad
Adam Price AC, Comisiynydd y Cynulliad
Joyce Watson AC, Comisiynydd y Cynulliad